# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y Ebrill 2018
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ada Evans (Cadeirydd), Meirion Davies, Caredig Jones, Rowland Jones, John Davies , Dylan Edwards, Dewi Rattray a Ann Tudor.**

**YMDDIHEURIADAU: Richard Davies, Meic Francis**

**ABSENOLDEBAU:** Nid oedd unrhyw Absenoldebau.-

Rhoddwyd croeso i gyfarfod Mis Ebrill gan y Cadeirydd Ada Evans.

Dachraeodd y cyfarfod 8 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion Mis Mawrth, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Ann Tudor ac fe eiliwyd gan y Cyng. Dewi Rattray.

**18/1021 - MATERION YN CODI**

1. Nodwyd for rhai o'r 'potholes' ar ffordd y Dyffryn wedi eu llanw ond mae cyflwr y ffordd dal yn wael yn enwedig wrth y corneli. Ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu unwaith eto I'r adran priffyrdd ynglyn a'r sefyllfa yma.
2. Nodwyd fod gwaith cryfhau y bont/fordd wrth ymyl Rhodmad eisioes wedi eu cwbwlhau.
3. Ynglyn a rhyngrwyd canolfan yr hen ysgol, ofynnwyd i'r clerc siarad a aelodau o'r Ddolen i weld os ydynt yn ddefyddio'r hyn cyn wneud penderfynniad ynglyn a help tuag at costiau.

**18/1022 - LLYTHYRON**

1. Llythyr oddiwrth Cyngor Ceredigion ynglyn a Perchnogion Cwm Angyfrifol. Y teimlad rhwng y cynghorwyd for angen wneud rhywbeth ynglyn as sefyllfa yma, gan bod baw cwn ar y palmantydd yn gwaethygu. Roedd y Cynghorwyr yn cytuno a'r trwyddedi mewn theory....ond dwedwyd dylai'r arian o'r trwyddedu mynd ynol at y gymuned i polisio hyn. Ofynnwyd os fydd cwn gwaith yn eithriedig? Ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu ynol at y cyngor Sir gyda'r sylwadau.
2. Hysbys gywiro Llwybr Troed 21/39 – Nodwyd hyn.
3. Malynlion ar gyfer archebu arwyddion goleuadau cyflymder. Ofynnwyd bod y wybodeth yma yn cael eu cadw ar ffeil.
4. Hysbysiad ynglyn a'r cynllun claddy ac amlosgi plant.
5. Rhai negeseuon a ebyst un llais Cymru.

**18/1023 - Ariannol**

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Ebrill; £133.26. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. John Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Dylan Edwards.
2. Tender oddiwrth Dan Owens ar gyfer torri glaswellt y fynwent £ 1275.00. Roedd y cynghorwyr yn hapus i rhoi y tender i Dan Owens eleni eto, gan ystyried pa mor dda mae eu waith wedi bod dros y tair mlynedd diwethaf. Cynigwydd gan y Cyng.Dylan Edwards ac fe eiliwyd gan y Cyng.John Davies. Roedd y Cynghorwyr yn gytun.
3. PAYE o £99.80, Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. John Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Dylan Edwards.
4. Invoice oddiwrth Hen Ysgol Llanilar ar gyfer llog yr ystafell Miss Ionawr, Chwefror a Ebrill; £22.50, Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Dewi Rattray ac eiliwyd gan y Cyng.Ann Tudor.
5. Invoice oddiwrth Wales Audit Office ar gyfer arolwg 2016-17. Cyfanswm o £182.00. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Meirion Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Caredig Jones.

**18/1024 – CYNLLUNIO**

Nid oes unrhyw gais wedi eu derbyn.

**18/1025 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Nodwyd gan D Morris fod angen gwaith trwsio ar drysiau'r Ty Hers. Ofynnwyd i'r Cyng.Dewi Rattray edrych arnynt ar rhan y cyngor.
2. Dyddiad torri'r fynwent; Nos Fawr Mai 8fed .
3. Mae aelod o'r cyhoedd wedi nodi for postyn yng ghanol y palmant wrth ymyl Ty Ms Weaver yn achosi problemau I phobol pasio. Ofynnwyd I'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir i codi hyn.
4. Mae cyflwyr angen glanhau safle busiau y Pentref. Ofynnwyd i'r clerc ymholi ynglyng a chostiau hyn.
5. Cofiwch noson gasglu swbriel, Nos Llun Ebrill 23. Pawb i gwrdd am 6.30yh.

Orffennwyd y cyfarfod am 9.10yh.